Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

**Cyd-Bwyllgor ERW**
**Dydd Gwener, 12fed Hydref, 2018**
**Y Llwyfan, College Road, Carmarthen**
**10.00 - 11.00 am**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn [Cadeirydd] Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Peter Rees | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Cyngor Dinas Abertawe |
| | |
| Mr Phil Roberts | Y Prif Weithredwr Arweiniol<br>ERW a Dinas a Sir Abertawe |
| Mr Eifion Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Ian Westley | Cyngor Sir Penfro |
| | |
| Y Cynghorydd Jen Raynor | Cyngor Dinas Abertawe |
| Mr Ian Budd | Cyngor Sir Powys – Cyfarwyddwr Arweiniol ERW |
| Mr Aled Evans | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mr Geraint Rees | Tîm Uwch-arweinwyr ERW |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro<br>(ERW - Swyddog Adran 151) |
| Mr Ian Eynon | Cyngor Sir Penfro<br>(Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion (ERW - Swyddog Monitro) |
| Mr Chris Llewellyn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Ms. Ruth Conway | Llywodraeth Cymru |
| Mr Ceri Davies | Cyngor Sir Penfro |
| Ms Rhona Edwards | ESTYN |
| Mr Martin S. Davies | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Rob Jones [Cyngor Castell-nedd Port Talbot].
Mynegodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i Chris Llewelyn ar gael ei benodi'n Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar.

2. **DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. **COFNODION - 16 GORFFENNAF 2018**

**CYTUNWYD i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2018 gan eu bod yn gywir.**

4. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

**Cofnod 7.2 - Datganiad Cyfrifon 2017-18 ac Adroddiad Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 Swyddfa Archwilio Cymru**
Cyfeiriodd y Cynghorydd Peter Rees at ei ymholiad a nodwyd yn y cofnod uchod mewn perthynas â'r cynnydd sylweddol mewn ffioedd ymgynghoriaeth a dywedodd nad oedd y wybodaeth a oedd wedi'i chael ers hynny wedi ateb ei gwestiwn ynghylch pam yr oedd y ffioedd wedi cynyddu cymaint. Esboniodd y Swyddog Adran 151 nad oedd newid o bwys wedi bod yn y ffioedd, ond fod y codio ariannol wedi'i ailddosbarthu. Ymatebodd y Cynghorydd Rees drwy ddweud ei fod yn parhau i fod yn anfodlon ar yr esboniad ac yr oedd yn dymuno bod ei bryder yn cael ei nodi yn y cofnodion.

5. **DIWEDDARIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR ARWEINIOL AC LOG GWEITHREDU**
Cafodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Sicrwydd wedi'i ddiweddaru, a oedd yn cynnwys tabl â chynllun gweithredu, cynnydd a manylion y swyddogion sy'n gyfrifol.

Dywedodd y Prif Weithredwr Arweiniol y byddai ef a'r Cadeirydd yn mynd gerbron y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ym mis Ionawr 2019 [gweler hefyd gofnod 6.3 isod] ac y byddai copi o'u cyflwyniad yn cael ei anfon at aelodau'r Cyd-bwyllgor maes o law.
Diolchodd Cyfarwyddwr Arweiniol ERW a'r Cadeirydd i bawb a oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r Cynllun Busnes.

**CYTUNWYD i dderbyn adroddiad diweddaru'r Prif Weithredwr Arweiniol.**

6. **GOHEBIAETH**

**6.1. LLYWODRAETH CYMRU - ADOLYGIADAU O'R GRANT GWELLA ADDYSG A'R GRANT DATBLYGU DISGYBLION**
Roedd llythyr dyddiedig 18 Medi 2018 oddi wrth Steve Davies, Cyfarwyddwr Addysg, Llywodraeth Cymru, wedi'i ddosbarthu i'r Cyd-bwyllgor, a oedd mewn perthynas ag adolygiadau arfaethedig ym mhob yn o'r 4 consortiwm o ran y Grant Gwella Addysg, ac elfen y plant sy'n derbyn gofal o'r Grant Datblygu Disgyblion.

Dywedodd Prif Weithredwr Arweiniol Castell-nedd Port Talbot y dylai'r adolygiadau hefyd ystyried ansawdd yr hyn a ddarperir gan ERW yn ogystal ag adroddiadau ESTYN. Roedd y Cadeirydd yn cydsynio â'r sylw hwn ac ychwanegodd y dylid barnu pob consortiwm yn ôl sut yr oedd wedi helpu i wella perfformiad y plant.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr adroddiad ar archwiliad ariannol Rod Alcott ar gael, gan y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod Adolygu a Herio diwethaf. Mewn ymateb, cytunodd Ruth Conway i gadarnhau'r sefyllfa gan na chafwyd unrhyw adborth.

**NODWYD.**

### 6.2. LLYWODRAETH CYMRU - GRANT GWELLA YSGOLION Y CONSORTIA RHANBARTHOL 2018-19

Roedd llythyr dyddiedig 14 Medi 2018 gan Lywodraeth Cymru wedi'i ddosbarthu i'r Cyd-bwyllgor, a oedd yn nodi ei chynnig diwygiedig, sef £40,971,102.00 ar gyfer y Grant yn ystod 2018-19. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod llythyr wedi'i anfon i Lywodraeth Cymru i dderbyn y cyllid ond hyd yn hyn nad oedd dim cyllid wedi dod i law. Yn unol ag un o'r rhag-amodau cyllid roedd angen cadarnhau'r dyddiadau arfaethedig pryd y byddai'r taliadau'n cael eu gwneud gan bob un o'r 6 awdurdod lleol, ac roedd swyddogion yn parhau i geisio datrys y mater mewn perthynas â chyfraniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, fel y codwyd yn y cyfarfod diwethaf [gweler cofnod 7.4].

**NODWYD.**

### 6.3. GRŴP CYNGHORWYR - CRAFFU AR ERW

Roedd llythyr dyddiedig 4 Hydref 2018 gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW wedi'i ddosbarthu i'r Cyd-bwyllgor a oedd yn manylu ar faterion a godwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ar 10 Medi 2018. Nodwyd bod y llythyr yn cyfeirio at wahoddiad a estynnodd i Gadeirydd ERW a'r Prif Weithredwr Arweiniol i ddod i gyfarfod y Grŵp Cynghorwyr - Craffu a gynhelir ym mis Ionawr 2019 [gweler hefyd gofnod 5 uchod].

**NODWYD.**

## 7. ADRODDIAD CYLLID

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol ar gyfer 2018-19 a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl a phenodol am y canlynol:

- Cyllideb y Tîm Canolog 2018-19
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Dyraniadau Grant 2018-19
- Grantiau 2018-19 - Plant sy'n derbyn gofal/Grant Datblygu Disgyblion
- Grantiau 2018-19 - Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol
- Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW 2018-19
- Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn.

Ailadroddodd y Swyddog Adran 151 nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi talu ei gyfraniad o £40k hyd yn hyn, ac os na fydd hyn yn dod i law byddai rhaid i'r Cyd-bwyllgor ystyried sut y gyflawni cyllideb gytbwys. Dywedodd Cyfarwyddwr Arweiniol CNPT fod Arweinydd CBS CNPT wedi ysgrifennu at yr Arweinwyr eraill yn y consortiwm gan amlinellu ei bryderon ynghylch rheolaeth a'r cynllun busnes, tryloywder y cyllid, defnydd yr adnoddau, atebolrwydd, a'r diffyg cynnydd o ran gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu. Ychwanegodd fod yr Arweinydd, y Prif Weithredwr ac ef ei hun yn credu na fyddai Castell-nedd Port Talbot yn gallu cadarnhau ei gyfraniad oni bai bod gwelliant yn y meysydd hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr Arweiniol, er ei fod yn cydsynio i ryw raddau â dadansoddiad Castell-nedd Port Talbot o'r sefyllfa, ei fod yn credu y gallai eu hamharodrwydd i gyfrannu ar hyn o bryd gael effaith negyddol ar ERW a'r rheiny sy'n cynorthwyo. Roedd y Cyd-bwyllgor yn cytuno â sylwadau'r Prif Weithredwr Arweiniol a mynegodd y safbwynt na ddylai unrhyw barti sy'n rhan o'r cytundeb, a luniwyd ar sail cydweithio, wrthod talu ei gyfraniad.
Mynegodd y Cadeirydd y safbwynt cadarnhaol bod datblygiadau diweddar, â chymorth Llywodraeth Cymru a ddiolchwyd ganddi, wedi paratoi'r ffordd ymlaen a'r gobaith oedd y byddai CBS CNPT yn gallu gwneud ei gyfraniad cyn bo hir.

**CYTUNWYD**

**7.1 nodi cyllideb y Tîm Canolog ar gyfer 2018-19 a chostau disgwyliedig y llety a chyfleusterau ychwanegol yn y dyfodol;**

**7.2 cyflwyno adroddiad arall i nodi'r cam gweithredu y gellir ei gymryd pe na fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn talu ei gyfran o'r Cyfraniad Awdurdodau Lleol (£250k) ar gyfer 2018-19;**

**7.3 nodi'r dyraniadau grant diwygiedig ar gyfer 2018-19 (Atodiad 2) a'r materion presennol o ran cydymffurfio â rhai o amodau a thelerau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol;**

**7.4 nodi dyraniad dros dro o'r Grant Gwella Ysgolion i flaenoriaethau Cynllun Busnes ERW 2018-19, a'r ffaith y bydd angen gwneud gwaith pellach;**

**7.5 cymeradwyo'r dyraniad o weddill y cyllid £250k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Adolygu a Diwygio;**

**7.6 peidio ag ystyried penderfynu sut i gyflenwi Cronfeydd wrth Gefn ERW ar hyn o bryd.**

**8. CYNLLUN BUSNES ERW**

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes ERW 2018-19 diwygiedig a oedd wedi'i lunio gan Gyfarwyddwyr ERW, Pen-ymgynghorwyr Her yr Awdurdodau Lleol a Thîm Uwch-arweinwyr ERW yn dilyn y cyfarfod diwethaf [gweler cofnod 6.7]. Roedd y Cynllun yn canolbwyntio ar bedwar amcan allweddol a oedd wedi deillio o Genhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru:-

- Datblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel;
- Sicrhau bod arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi'r safonau;

- Cynorthwyo ein hysgolion i fod yn rhai cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant;
- Sicrhau trefniadau cadarn o ran asesu, gwerthuso a bod yn atebol sy'n cefnogi system sy'n gwella ei hun.

**CYTUNWYD i gymeradwyo'r Cynllun Busnes wedi'i ailddrafftio i'w ddosbarthu.**

**9. COFNOD RISG CORFFORAETHOL (BYGYTHIADAU) 2018-19**

Gan gyfeirio at gofnod 8 o'r cyfarfod diwethaf, cafodd y Cyd-bwyllgor y fersiwn ddrafft o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer 2018-19, a oedd wedi'i hailddrafftio yn sgil cyngor gan y Swyddog Adran 151. Ymysg y newidiadau yr oedd y cynnwys a'r fformat adrodd, ynghyd â ffocws ar y Gofrestr Ganolog ac Ariannol. Nodwyd bod yna risgiau sylweddol, ac roedd llawer ohonynt yn rhai hirdymor nad oedent wedi cael eu lleihau er gwaethaf y camau gweithredu.

**CYTUNWYD i gymeradwyo'r lefelau goddefgarwch a derbyn y gofrestr risg wedi'i hailddrafftio.**

**10. ADRODDIAD AWDIT MEWNOL**

Cafodd y Cyd-bwyllgor Adroddiad Archwiliad Mewnol ERW 2017-18 ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am ymatebion y rheolwyr.
Roedd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion am gofnodi ei fod yn anfodlon ar 'Ymateb y Rheolwyr' i'r 'Trefniadau Disgwyliedig (Rheoli)' mewn perthynas â gweithredu'r cerdyn prynu. Dywedodd y Swyddog Adran 151 nad oedd y mater wedi'i gategoreiddio'n 'goch' yn y Dyfarniadau Argymell, ond roedd o fewn Gradd Weithredu 'Digonol ac effeithiol yn rhannol', er y cydnabuwyd ganddo fod yna faterion rheoli mewnol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Atgoffwyd yr aelodau gan y Cyfarwyddwr Arweiniol fod yr adolygiad diweddar o ERW wedi pwysleisio'r ffaith bod cyfrifoldeb am dreuliau yn peri pryder. Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor bwysig yw atebolrwydd am unrhyw wariant.

**CYTUNWYD i nodi'r adroddiad ac Ymatebion diwygiedig y Rheolwyr.**

**CADEIRYDD** ____________________  **DYDDIAD** ____________________